Pembrokeshire Association of Community Transport Organisations
Cymdeithas Mudiadau Cludiant Cymunedol Sir Benfro

# Cydlynydd Prosiect *Take Me Too!* - Swydd Ddisgrifiad

| | |
|---|---|
| **Base** | Neuadd y Sir, Hwlffordd.<br>Gyda theithio trwy Sir Penfro i gyd. |
| **Hours:** | 21 awr yr wythnos. Gall fod angen gweithio ar fin nos ac ar benwythnos, gydag amser dyledus i ffwrdd yn ei le yn cael ei ddarparu. Bydd disgwyl i'r Cydlynydd gymryd rhan mewn rota ar alwad ar benwythnos. |
| **Salary:** | £14,730 gwir gyflog (NJC Pwynt 29 pro rata) yn ogystal â lwfans wrth gefn £25 am benwythnos ar alwad. |
| **Line Managed By:** | Rheolwr Datblygu Trafnidiaeth Cymunedol PACTO |
| **Responsible For:** | Aelodau eraill o Dîm Prosiect *Take Me Too!* :<br>- Cynorthwyydd Prosiect Rhan Amser<br>- Cynorthwywyr Hyrwyddo (Rôl achlysurol i gynorthwyo gyda hyrwyddo mewn digwyddiadau) |

**Mae'r swydd hon wedi'i ariannu gan y Loteri Genedlaethol trwy Gronfa'r Loteri Fawr, ac mae'n Gytundeb Tymor Penodol am 5 mlynedd o ddyddiad yr apwyntiad.**

CRONFA LOTERI FAWR
BIG LOTTERY FUND
ARIENNIR GAN Y LOTERI
LOTTERY FUNDED

## Pwrpas y Swydd:

Cydlynu'r prosiect *Take Me Too!* Ai ddatblygu a hyrwyddo system newydd o rannu lifft ar draws Sir Penfro wledig.

### Prif Ddyletswyddau:

1. Cynorthwyo gyda dewis asiantaeth ddigidol i gyflawni gwaith ar wefan y prosiect, anghenion rhaglenni (ap) a datblygu meddalwedd, a chydlynu gyda hwy yn ystod y cyfnod datblygu, a thrwy gydol y prosiect er mwyn sicrhau bod y system yn cwrdd â'n hanghenion a'r fanyleb.
2. Datblygu cysylltiadau gyda phartneriaid allweddol, megis gweithgareddau cymunedol, cyfleusterau a threfnwyr gweithgareddau, a fyddai'n dymuno hyrwyddo rhannu lifft o fewn eu gweithgareddau.
3. Sefydlu a chydlynu prosiect *Sounding Board* o randdeilwyr a fydd yn medru cynorthwyo gyda datblygiad y prosiect.

4. Datblygu a rhoi cynllun marchnata ar waith er mwyn hyrwyddo *Take Me Too!* i yrwyr posib a defnyddwyr gwasanaeth, gan gynnwys defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol, cyfryngau argraffu, nwyddau, digwyddiadau a rhwydweithio/ar lafar.
5. Recriwtio gyrwyr a defnyddwyr ar gyfer y prosiect *Take Me Too!* mewn modd rhagweithiol.
6. Sefydlu a gweithredu systemau ar gyfer dilysu gyrwyr a theithwyr sydd yn cofrestru gyda *Take Me Too!* gyda chefnogaeth gan y Cynorthwyydd Prosiect.
7. Datblygu a rhoi Cod Ymddygiad ar waith ar gyfer gyrwyr a theithwyr *Take Me Too!*
8. Datblygu, cydlynu a chefnogi cronfa o yrrwyr sydd yn medru cynorthwyo defnyddwyr bregus y gwasanaeth (megis oedolion gydag anawsterau dysgu, nam synhwyraidd neu faterion iechyd meddwl) gan gynnwys adnabod a chaffael hyfforddiant perthnasol, gwiriad DBS (Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd) ayb.
9. Goruchwylio a gweithredu fel rheolwr llinell i'r Cynorthwyydd Prosiect a Chynorthwyydd Hyrwyddo Digwyddiadau.
10. Ar y cyd â'r Cynorthwyydd Prosiect, darparu gwasanaeth archebu dros y ffôn, sydd yn galluogi i'r rhai heb gyfrifiadur i gael mynediad i'r prosiect *Take Me Too!*
11. Rheoli a chymryd rhan mewn rota ar alwad er mwyn sicrhau bod cymorth ar gael i ddefnyddwyr yn ystod penwythnos, os oes angen.
12. Datblygu, cydlynu a gweinyddu system i ddarparu lifft gwarantedig adref hyd yn oed os yw'r trefniadau rhannu lifft yn cwympo trwodd.
13. Casglu adborth defnyddwyr a monitro gweithgareddau, gan adnabod a gweithredu unrhyw welliannau os yn angenrheidiol.
14. Sefydlu patrwm o gyfathrebu'n rheolaidd gyda defnyddwyr gwasanaeth *Take Me Too!* er mwyn rhannu gwybodaeth megis newyddion ynghylch y prosiect, negeseuon hyfforddi a diogelwch, trwy gyfrwng e.e. newyddlen neu gyfryngau cymdeithasol.
15. Casglu gwybodaeth ar gyfer monitro'r prosiect a'i werthuso, a chynorthwyo i baratoi adroddiadau ar gyfer Ymddiriedolwyr, Cronfa'r Loteri Fawr ac eraill.
16. Datblygu ymwybyddiaeth o fentrau rhannu lifft eraill a datblygiadau yn y DU ac yn ehangach.
17. Cynorthwyo gyda chynllunio ar gyfer y dyfodol i'r prosiect *Take Me Too!* ar ôl i gyfnod ariannu'r prosiect gan y Gronfa Loteri ddod i ben, gan gynnwys adnabod a datblygu ffynonellau incwm posib.
18. Ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau eraill, mewn trafodaethau gyda'r rheolwr llinell, fel y bo'r gofyn o dro i dro.

## Manyleb Person

Brwdfrydedd am y prosiect a'i amcanion, ac ymroddiad gwirioneddol i sicrhau bod rhannu lifft yn gweithio yn Sir Penfro.

Profiad o:

- Reoli Prosiect
- Hyrwyddo a rhoi cyhoeddusrwydd i brosiect neu wasanaeth, gan gynnwys defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol.
- Cysylltu gyda chontractwyr TG (e.e. Gwefan/Meddalwedd/Datblygwyr Rhaglenni).
- Cadw cofnodion yn drefnus ac yn systematig
- Medru gweithio yn annibynnol gydag ymroddiad a brwdfrydedd

Ymwybyddiaeth o:

- Deddfwriaeth berthnasol, gan gynnwys Gwarchod Gwybodaeth, Diogelu Oedolion a Rhannu Car.
- Anghenion cludiant ar gyfer cymunedau gwledig yn Sir Penfro.

Gallu i:

- berthnasu yn dda gyda phobl o wahanol gefndiroedd
- gweithio oriau hyblyg gan gynnwys peth gwaith min nos a phenwythnos
- teithio trwy Sir Penfro ar gyfer gwaith
- cyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg (dymunol ond nid hanfodol)